

Adolygiad ar y Cyd o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg - Cylch Gorchwyl

Pam rydym yn gwneud y gwaith hwn

- 1 Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a Swyddfa Archwilio Cymru eisoes wedi dangos eu bod yn bwriadu cwblhau gwaith ar y trefniadau llywodraethu er mwyn sicrhau ansawdd a diogelwch gwasanaethau Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Yn [dilyn adroddiad hynod o feirniadol](#) a gyhoeddwyd gan Goleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a Choleg Brenhinol y Bydwragedd¹ ar wasanaethau mamolaeth, yn ogystal â newidiadau cysylltiedig i statws uwchgyfeirio'r Bwrdd Iechyd, mae AGIC a Swyddfa Archwilio Cymru wedi penderfynu ei bod hi'n briodol, yn angenrheidiol ac yn amserol i gwblhau adolygiad brys ar y cyd i archwilio trefniadau llywodraethu ansawdd y Bwrdd Iechyd.

Cefndir

- 2 O ganlyniad i bryderon ynghylch adrodd ar ddigwyddiadau difrifol yng ngwasanaethau mamolaeth hen Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, comisiynodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol adolygiad annibynnol gan Goleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a Choleg Brenhinol y Bydwragedd. Cyhoeddwyd canfyddiadau'r adolygiad hwnnw ar 30 Ebrill 2019 a thynnwyd sylw at nifer o bryderon difrifol a methiannau yng ngwasanaethau'r Bwrdd Iechyd. Mewn datganiad ysgrifenedig ar ôl i'r adroddiad gael ei gyhoeddi, dywedodd y Gweinidog y byddai gwasanaethau mamolaeth y Bwrdd Iechyd yn destun mesurau arbennig ac y byddai statws cyffredinol y sefydliad yn y fframwaith uwchgyfeirio yn cael ei godi i "Ymyriad wedi'i Dargedu". Yn y cyhoeddiad hwnnw, nododd y Gweinidog hefyd fod adroddiad y Colegau Brenhinol yn cynnwys pryderon difrifol ynghylch prosesau llywodraethu ac arweinyddiaeth ehangach y bwrdd.
- 3 Cyn i adolygiad y Colegau Brenhinol gael ei gyhoeddi, roedd Swyddfa Archwilio Cymru ac AGIC wedi mynegi pryderon ynghylch agweddau ar lywodraethu ansawdd. Cyfeiriodd [adolygiad asesiad strwythuredig Swyddfa Archwilio Cymru yn 2018](#) at yr angen i gryfhau sawl elfen o drefniadau llywodraethu ansawdd a rheoli risg y Bwrdd Iechyd. Yn ogystal, nodwyd nifer o faterion mewn perthynas â llywodraethu yn ystod arolygiadau AGIC, gan gynnwys yr arolygiadau canlynol:
 - Gwasanaethau iechyd meddwl - Ysbyty Brenhinol Morgannwg – 2015-2018
 - [Adroddiad arolygu 2015](#)
 - [Adroddiad arolygu 2016](#)

- [Adroddiad arolygu 2017](#)
 - [Adroddiad arolygu 2018](#)
 - [Adolygiad arolygu dilynol 2018](#)
 - [Wardiau meddygol aciwt 12 ac 19 – Ysbyty Brenhinol Morgannwg – Mawrth 2018](#)
 - [Gwasanaethau llawfeddygol - Ysbyty Brenhinol Morgannwg – Medi 2018](#)
 - [Gwasanaethau mamolaeth – Ysbyty Brenhinol Morgannwg – Hydref 2018](#)
 - [Adran radioleg, gan ganolbwyntio ar y defnydd o ïoneiddio - Ysbyty'r Tywysog Siarl – Rhagfyr 2018](#)
- 4 Mae'n bwysig cydnabod bod canfyddiadau'r Colegau Brenhinol mewn perthynas â gwasanaethau mamolaeth yn ymwneud â hen Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ac nid ydynt yn cynnwys gwasanaethau ym Mhen-y-bont ar Ogwr a drosglwyddodd i'r Bwrdd Iechyd o ganlyniad i newid ffiniau ar 1 Ebrill 2019. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o bwysigrwydd sicrhau bod unrhyw welliannau ehangach mae'n eu gwneud i'w drefniadau llywodraethu ansawdd yn cael eu rhoi ar waith yng ngwasanaethau Pen-y-bont ar Ogwr hefyd gan ei fod yn gyfrifol am y rhain erbyn hyn.

Cwmpas y gwaith

- 5 Bydd yr adolygiad ar y cyd yn ceisio mynd i'r afael â'r cwestiwn cyffredinol canlynol: A yw trefniadau llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn sicrhau y gellir darparu gwasanaethau diogel, effeithiol ac o ansawdd uchel? Wrth ateb y cwestiwn hwn, byddwn yn ystyried y llinellau ymholi allweddol canlynol:
- A yw ansawdd a diogelwch gwasanaethau yn ddealladwy ar lefel weithredol ac a weithredir ar bryderon yn ddigonol?
 - A yw ansawdd a diogelwch gwasanaethau yn ddealladwy ar lefel gorfforaethol ac a weithredir ar bryderon yn ddigonol?
 - A yw'r sefydliad yn hyrwyddo diwylliant gwrando a dysgu agored er mwyn darparu gwasanaethau diogel, effeithiol ac o ansawdd uchel?
- 6 Er mwyn profi'r trefniadau hyn, bydd ein gwaith maes yn cynnwys adolygiad o'r trefniadau llywodraethu ansawdd yn y gyfarwyddiaeth gwasanaethau llawfeddygol, o wardiau i fyrddau, gan ganolbwyntio ar safleoedd Ysbyty'r Tywysog Siarl ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Bydd y gwaith hefyd yn ystyried y prosesau llywodraethu ar gyfer rheoli pryderon a digwyddiadau a dysgu ohonynt.
- 7 Gan gydnabod y newid diweddar i ffin Pen-y-bont ar Ogwr ar 1 Ebrill 2019, bydd yr adolygiad hefyd yn ystyried y trefniadau trosglwyddo o ran ansawdd, risg a sicrwydd yn Ysbyty Tywysoges Cymru.
- 8 Yn ystod yr arolygiad, os byddwn yn nodi unrhyw faterion llywodraethu ansawdd sydd â pherthnasedd ehangach i GIG Cymru, byddwn yn ystyried y ffordd orau o adrodd ar y materion hyn a'u huwchgyfeirio.

- 9 Bydd y tîm adolygu ar y cyd yn sicrhau bod ei waith yn cael ei gydlynu'n briodol ag ymyriadau ac adolygiadau allanol eraill sydd ar waith yn y Bwrdd Iechyd, yn bennaf y gwaith sy'n cael ei wneud gan y Panel Goruchwyllo Gwasanaethau Mamolaeth Annibynnol, yr Uned Gyflawni, David Jenkins, a'r adolygiad annibynnol o drefniadau comisiynu a chyhoeddi adroddiad y fydwraig ymgynghorol.
- 10 Bydd yr adolygiad ar y cyd hefyd yn defnyddio canfyddiadau gwaith archwilio ac arolygu perthnasol arall a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru ac AGIC yn y Bwrdd Iechyd.

Dull adolygu

- 11 Mae'r tabl canlynol yn nodi'r ffynonellau tystiolaeth y bydd yr adolygiad yn eu defnyddio:

Methodoleg	Gweithgaredd
Cyfweiliadau â staff y bwrdd iechyd	Byddwn yn trefnu cyfweiliadau â staff y bwrdd iechyd, gan gwmpasu ystod o gyfrifoldebau corfforaethol a gweithredol.
Arsylwadau	Byddwn yn ymdrechu i arsylwi ar gyfarfodydd gweithredol perthnasol yn y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys ar lefel cyfarwyddiaeth/arbenigedd. Byddwn hefyd yn defnyddio arsylwadau mewn cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgor perthnasol o fewn cyfnod yr adolygiad fel y bo'n briodol. Yn ogystal, byddwn yn ymweld â wardiau/ardaloedd yn y gyfarwyddiaeth gwasanaethau llawfeddygol i arsylwi ar yr amgylcheddau hynny ac i roi cyfle i'r staff siarad â'r tîm adolygu (gweler y sesiwn galw heibio isod).
Sesiynau galw heibio	Mewn perthynas â'r ymweliadau â'r wardiau/ardaloedd clinigol, byddwn yn cynnal sesiynau galw heibio anffurfiol â staff gweithredol yn y gyfarwyddiaeth gwasanaethau llawfeddygol. Byddwn yn ceisio cynnal dwy sesiwn galw heibio yr un yn y ddau ysbyty (Ysbyty'r Tywysog Siarl ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg).
Adolygu dogfennau	Gofynnir am ddogfennaeth ategol er mwyn darparu tystiolaeth yn erbyn ein llinellau ymholi.
Arolwg staff	Byddwn yn gofyn i'r staff yn y gyfarwyddiaeth gwasanaethau llawfeddygol gwblhau arolwg ar-lein er mwyn casglu eu barn ar drefniadau llywodraethu ansawdd presennol a diwylliant y gweithle.

- 12 Byddwn yn trafod y manylion a'r trefniadau ymarferol sy'n gysylltiedig â'r dull uchod gyda'r Bwrdd Iechyd.

Amseru'r gwaith

Yr amserlenni dangosol ar gyfer camau allweddol y gwaith:

Cam allweddol	Amseru
Dechrau'r gwaith	Mehefin 2019
Gwaith maes	Gorffennaf 2019
Cyflwyno adroddiad drafft i'r Bwrdd Iechyd	Awst – Medi 2019
Cyhoeddi'r adroddiad terfynol	Yn gynnar yn ystod Hydref 2019.

- 13 Mae'r amserlen uchod wedi'i llunio gan ddibynnu ar allu'r Bwrdd Iechyd i roi'r wybodaeth ofynnol i'r tîm adolygu ar y cyd er mwyn cefnogi ein proses o gasglu tystiolaeth. Mae hyn yn cynnwys argaeledd staff y Bwrdd Iechyd i siarad ag aelodau'r tîm adolygu, gan nodi y cynhelir yr adolygiad yn ystod yr haf. Caiff y Bwrdd Iechyd ei hysbysu am unrhyw newidiadau i'r amserlen.

Adrodd yn ôl ar ein canfyddiadau

- 14 Lle y bo'n briodol, bydd tîm adolygu Swyddfa Archwilio Cymru/AGIC yn rhoi adborth yn y cyfamser os bydd unrhyw faterion sy'n peri pryder dybryd yn codi yn ystod y cam gwaith maes.
- 15 Byddwn yn creu adroddiad ysgrifenedig ar y cyd a fydd yn crynhoi canfyddiadau ein gwaith a gwneir argymhellion i gefnogi gwelliannau. Bydd y Bwrdd Iechyd yn derbyn copi o'r adroddiad drafft i wneud sylwadau ar gywirdeb ffeithiol ac yn derbyn copi o'r adroddiad terfynol cyn iddo gael ei gyhoeddi.
- 16 Yn unol â threfniadau AGIC a Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer adroddiadau cyhoeddus, byddwn yn cyhoeddi'r adroddiad terfynol ar ein gwefan.

Data personol

- 17 Caiff y gwaith hwn ei gwblhau o dan amrywiaeth o ofynion a phwerau statudol sy'n ymwneud â swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.
- 18 Yn unol ag Adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol fodloni ei hun fod gan gyrff y GIG drefniadau priodol i sicrhau defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o'i adnoddau. Yn ogystal, mae Adran 145 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 yn rhoi'r pŵer i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal astudiaethau i'w alluogi i wneud argymhellion ar gyfer gwella darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd corff GIG o ran y ffordd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau.

- 19 I AGIC, mae'r adolygiad hwn yn rhan o'i waith i ddarparu sicrwydd annibynnol ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru. Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (Rhan II, Pennod 4) yn rhoi'r pŵer i AGIC (ar ran Gweinidogion Cymru) gynnal arolygiadau ac adolygiadau o'r GIG neu wasanaethau a ddarperir i'r GIG, ac ymchwilio iddynt.
- 20 Mae'r cylch gorchwyl hwn yn amlinellu'r dull adolygu rydym yn bwriadu ei ddefnyddio.
- 21 Pan fyddwn yn prosesu data personol, bydd hyn yn unol â deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Gweler rhagor o wybodaeth yn hysbysiad prosesu teg Swyddfa Archwilio Cymru ac yn hysbysiad preifatrwydd AGIC yn [Atodiadau 1 a 2](#).
- 22 Gofynnwn i chi rannu'r cylch gorchwyl hwn ag unrhyw aelod o staff y byddwn yn cyfweld ag ef neu a fydd yn cymryd rhan mewn grŵp ffocws. Bydd hyn yn helpu'r rheini rydym yn cyfweld â nhw neu'r rhai sy'n cymryd rhan mewn grŵp ffocws i ddeall diben ein hadolygiad a sut byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir.

Atodiad 1 – Hysbysiad prosesu teg Swyddfa Archwilio Cymru

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn rhoi gwybod i chi am y posibilrwydd y bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru (a Swyddfa Archwilio Cymru ar ei ran) yn casglu eich gwybodaeth bersonol.

[Darllenwch yr Swyddfa Archwilio Cymru hysbysiad preifatrwydd llawn.](#)

Pwy ydym ni a'r hyn rydym yn ei wneud

Mae gwaith yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys archwilio'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus. Rydym yn casglu gwybodaeth er mwyn ein helpu i asesu p'un a oes gan gyrff y GIG drefniadau priodol i sicrhau defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o'u hadnoddau ac a yw'n bosibl gwella'r rhain. Caiff y wybodaeth a gesglir ei defnyddio ar gyfer yr adolygiad hwn ac mae'n bosibl y caiff ei defnyddio yn ein gwaith archwilio ehangach hefyd (megis yr Asesiad Strwythuredig a'r Adroddiad Archwilio Blynyddol).

Y cyfreithiau perthnasol

Rydym yn prosesu eich data personol (gan gynnwys data personol categori arbennig) yn unol â deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Caiff ein gwaith mewn perthynas â'r GIG ei wneud o dan Adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Adran 145 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a/neu Adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Yr hyn y byddwn yn ei wneud gyda'ch gwybodaeth

Rydym yn gofyn am farn a gwybodaeth am wasanaethau'r GIG a'r ffordd y cânt eu darparu. Efallai y bydd peth o'r wybodaeth hon yn ymwneud ag unigolion y gellir eu hadnabod a fyddai'n ei gwneud yn wybodaeth bersonol, er nad casglu gwybodaeth am unigolion y gellir eu hadnabod yw diben ein gwaith mewn gwirionedd.

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol a'r tîm archwilio o Swyddfa Archwilio Cymru yn gallu cael gafael ar y wybodaeth a ddarperir gennych. Efallai y byddwn yn rhannu peth gwybodaeth â'r Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth y GIG yn ein trafodaethau â'r uwch-reolwyr, ac mae'n bosibl y bydd ein hadroddiad yn cynnwys peth gwybodaeth fel yr amlinellir isod.

Bydd y wybodaeth rydym yn ei rhannu a'i chyhoeddi yn ddienw a bydd yn ymwneud â'r themâu a'r tueddiadau rydym yn eu nodi.

Ni fyddwn yn defnyddio gwybodaeth i ymchwilio i gwynion penodol sy'n codi o'n defnydd o'r gwasanaeth. Os oes gennych gŵyn am wasanaeth, byddwn yn eich cyfeirio at weithdrefn gwyno'r corff iechyd.

Byddwn yn cadw'r wybodaeth a gesglir, gan gynnwys eich data personol, am 7 mlynedd ar ôl i'n hadroddiad gael ei gyhoeddi.

Byddwn yn cadw eich data personol am 7 mlynedd ar ôl i'n hadroddiad gael ei gyhoeddi, neu am 25 o flynyddoedd os caiff y data eu cyhoeddi mewn adroddiad, a byddwn yn cadw eich data yn ddiogel yn unol â'n Polisi Diogelwch Gwybodaeth.

Eich hawliau

Yn unol â deddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl i ofyn am gopi o'r wybodaeth personol gyfredol a gedwir amdanoch ac i wrthwynebu ymarferion prosesu data sy'n achosi niwed a thralod sylweddol a di-alw-amdano.

Os hoffech drafod unrhyw wrthwynebiadau neu bryderon, neu gael copi o'r wybodaeth personol gyfredol a gedwir amdanoch, ysgrifennwch at: Y Swyddog Gwybodaeth, Swyddfa Archwilio Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ neu e-bostiwrch swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am eich hawliau o dan ddeddfwriaeth diogelu data, neu rydych yn anfodlon ar y ffordd yr ymdriniwyd â'ch data personol, gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ysgrifennu i'r cyfeiriad canlynol: Information Commissioner's Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire SK9 5AF, drwy e-bostio casework@ico.gsi.gov.uk, neu drwy ffonio 01625 545745.

Atodiad 2 – Hysbysiad Preifatrwydd AGIC – crynodeb

Mae eich preifatrwydd yn bwysig i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru fel rhan o Lywodraeth Cymru, ac yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), rydym wedi datblygu Hysbysiad Preifatrwydd sy'n cwmpasu pam rydym yn casglu ac yn defnyddio eich gwybodaeth.

[Darllenwch yr Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru hysbysiad preifatrwydd llawn.](#)

Pwy ydym ni

Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn rhan o Lywodraeth Cymru. Ein rôl yw rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau'r GIG a darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru yn erbyn amrywiaeth o safonau, polisïau, canllawiau a rheoliadau ac amlygu'r meysydd sydd angen eu gwella.

Pam rydym yn casglu ac yn prosesu eich data personol

Mae'r wybodaeth y mae AGIC yn ei chasglu, ei defnyddio a'i phrosesu yn angenrheidiol i'n galluogi i gyflawni tasgau er budd y cyhoedd ac i arfer ein hawdurdod swyddogol. Nodir diben casglu data a'r mathau o wybodaeth bersonol rydym yn ei chadw isod:

Ymchwilio i bryderon a materion diogelu

Er mwyn ymchwilio i bryder neu fater diogelu, mae'n rhaid i ni gasglu'r data personol canlynol:

- Enw;
- dyddiad geni;
- cyfeiriad;
- rhif ffôn;
- cyfeiriad e-bost;
- dewisiadau iaith a chyfathrebu;
- honiadau o gamymddwyn yn y gwaith a honiadau diogelwch a cham-drin.

Rydym hefyd yn casglu data categori arbennig megis:

- cofnodion meddygol a chynlluniau gofal a thriniaeth.

Caiff eich gwybodaeth ei phrosesu'n fewnol a bydd ond yn cael ei throsglwyddo i swyddogion yn yr adrannau perthnasol y mae angen iddynt gyfrannu at y ffordd y caiff eich cwyn ei thrin a'n hymateb. Caiff yr holl wybodaeth sy'n ymwneud â chwynion ei gweinyddu a'i chadw ar systemau rheoli cofnodion diogel. Byddwn yn rhannu eich gwybodaeth â chyrrff rheoleiddio ac awdurdodau/sefydliadau perthnasol pan fydd risgiau posibl i'r cyhoedd, i gleifion neu i staff.

Caiff eich gwybodaeth ei chadw am 10 mlynedd ar ôl dyddiad y ddogfen olaf.

Adolygiadau ac ymchwiliadau arbennig, gan gynnwys adolygiadau o ddynladdiadau

Er mwyn ymchwilio i ddynladdiad, marwolaeth mewn carchar ac i gynnal ymchwiliadau arbennig, mae'n rhaid i ni gasglu'r data personol canlynol:

- enw;
- dyddiad geni;
- cyfeiriad;
- rhif ffôn;
- cyfeiriad e-bost;
- cofnodion yr heddlu;
- euogfarnau;
- honiadau o gamymddwyn yn y gwaith.

Byddwn yn rhannu eich gwybodaeth â chyrrff rheoleiddio ac awdurdodau/sefydliadau perthnasol pan fydd risgiau posibl i'r cyhoedd, i gleifion neu i staff.

Caiff eich gwybodaeth ei chadw am 15 mlynedd ar ôl dyddiad y ddogfen olaf.

Archwilio gwasanaethau

Er mwyn archwilio gwasanaethau gofal iechyd, efallai y byddwn yn casglu'r data personol canlynol:

- enwau'r cleifion;
- dyddiadau geni'r cleifion;
- rhywedd y cleifion;
- rhif adnabod y cleifion;
- Comisiynydd GIG y gwasanaethau sy'n cael eu darparu;
- enwau'r staff;
- rolau'r staff;
- cofnodion arfarnu'r staff;
- cofnodion goruchwylio'r staff;
- gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd y staff;
- ffotograffau o'r staff;
- gwiriadau recriwtio/cyn-cyflogi'r staff, geirdaon;
- cymwysterau/cofrestrriad o gorff proffesiynol a hanes cyflogaeth.

Mae'n bosibl y byddwn yn casglu data categori arbennig hefyd, megis:

- gwybodaeth am gleifion o gofnodion meddygol, gofal a thriniaeth;
- cynlluniau gan gynnwys diagnosis, risg, math o brofion fforensig, math o driniaeth a meddyginiaeth;
- manylion cadw os yw hynny'n berthnasol;
- ethnigrwydd, gan gynnwys anghenion crefyddol/diwylliannol.

Mae AGIC yn defnyddio gwybodaeth am gleifion er mwyn:

- olrhain effeithiolrwydd y gofal y mae claf wedi'i dderbyn dros amser gan gynnwys cyfeirio at unrhyw achosion o ofal aneffeithiol neu anniogel wrth adrodd yn ôl i ddarparwyr gofal iechyd.

Mae AGIC yn defnyddio gwybodaeth am staff er mwyn:

- sicrhau bod unrhyw wiriadau cyn-cyflogi angenrheidiol wedi cael eu cynnal;
- gwerthuso p'un a yw'r staff wedi cael yr hyfforddiant a/neu'r datblygiad perthnasol a darparu geiradaon ar gyfer y staff, os oes angen, wrth adrodd yn ôl i ddarparwyr gofal iechyd.

Byddwn yn rhannu gwybodaeth bersonol â chyrrff rheoleiddio ac awdurdodau/sefydliadau perthnasol pan fydd risgiau posibl i'r cyhoedd, i gleifion neu i staff.

Gyda phwy rydym yn rhannu eich gwybodaeth

Mae gan AGIC nifer o gytundebau rhannu gwybodaeth â sefydliadau eraill rydym yn gweithio'n agos gyda nhw. Mae'r cytundebau hyn yn pennu'r rhesymeg ar gyfer rhannu gwybodaeth er mwyn helpu'r sefydliadau i fodloni eu hamcanion statudol cyffredin ac i ganolbwyntio ar weithgareddau priodol. Maent yn cefnogi'r broses o greu rhaglenni gwaith cyflenwol gan sicrhau bod prosesau clir ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth, risgiau a phryderon pan fydd risgiau posibl i'r cyhoedd, i'r cleifion neu i'r staff. Bydd AGIC yn rhannu gwybodaeth ag awdurdodau/sefydliadau perthnasol, megis yr heddlu a byrddau diogelu awdurdodau lleol. Dim ond fel y nodwyd uchod y bydd AGIC yn rhannu eich data personol.

Gallwch gael gafael ar y [cytundebau rhannu gwybodaeth](#) drwy ddewis y ddolen uchod neu drwy chwilio am y dogfennau ar ein gwefan.

Eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Mae gennych yr hawl i:

- gael gafael ar y data personol y mae AGIC yn eu prosesu amdanoch.
- gofyn i AGIC gywiro gwallau yn y data hynny.
- gwrthwynebu'r proses (mewn rhai amgylchiadau).
- gofyn i'ch gwybodaeth gael ei dileu.
- gwneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o wybodaeth am y data y mae AGIC yn eu cadw a'u defnyddio, neu os ydych chi am arfer eich hawliau o dan y GDPR, cysylltwch â'r canlynol:

Rheolwr Gwybodaeth Adrannol
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful,
CF48 1UZ

E-bost: hiw@gov.wales

Swyddog Diogelu Data

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: data.protectionofficer@gov.wales

I gael cyngor annibynnol ar y GDPR, cysylltwch â'r canlynol:

Information Commissioner's Office

Wycliffe House

Water Lane

WILMSLOW

Cheshire SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113

Gwefan: www.ico.gov.uk